Atodiad A: Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Caiff yr Asesiad yma o'r Effaith ar y Gymuned ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018). Mae i'w ddarllen ochr yn ochr â'r Ddogfen Ymgynghori, yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan fod yr wybodaeth ym mhob dogfen yn gysylltiedig ac mae'r themâu ynddyn nhw'n drawsbynciol.

ADRAN 1 – MANYLION Y CYNNIG	
Swyddog Arweiniol:	Lisa Howell
Cyfarwyddwr Gwasanaeth:	Andrea Richards
Maes Gwasanaeth:	Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant – Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif
Dyddiad:	29 Tachwedd 2024
Cynnig:	Cau chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar a diwygio'r dalgylch ar gyfer darpariaeth ôl-16 i osod Ysgol Gyfun Aberpennar yn nalgylch Ysgol Gymunedol Aberdâr.
Trosolwg o'r cynnig:	Y cynnig yw cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar a diwygio'r dalgylch ar gyfer darpariaeth ôl-16 i osod Ysgol Gyfun Aberpennar yn nalgylch Ysgol Gymunedol Aberdâr. Cynigir bod y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn cau erbyn mis Medi 2026 fan bellaf. Er mwyn galluogi cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar erbyn y dyddiad yma, fyddai disgyblion blwyddyn 12 newydd ddim yn cael eu derbyn i'r chweched dosbarth ym mis Medi 2025. Mae'r cynnig yma'n cael ei wneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018). Mae Adran 2.3 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018) yn cyfeirio at elfennau o drefniadaeth ysgolion sy'n gofyn am gyhoeddi cynigion, gan gynnwys: • Newidiadau a reoleiddir i ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol ac ysgolion arbennig cymunedol: ○ Cyflwyno, neu derfynu, darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgol.
Newidiadau i ddalgylchoedd:	Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai dalgylch Ysgol Gymunedol Aberdâr yn ehangu i gynnwys dalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar **ar gyfer darpariaeth ôl-16 yn unig**.
Amlinelliad o ble mae deddfwriaeth neu sbardunau	Mae pwerau i Gynghorau ddatblygu cynigion trefniadaeth ysgolion yn cael eu llywodraethu gan: • Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

<table>
<tr><td>eraill, megis cod ymarfer, yn effeithio ar gyflawni'r cynnig yma.</td><td>• Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018).

Rhaid i gynghorau, wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 3 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol a gynhwysir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018) a rhaid iddo roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd ynddo.</td></tr>
<tr><td>Dyddiadau'r ymgynghoriad:</td><td>Bydd yr ymgynghoriad ar gyfer y cynnig yn dechrau ar 2 Rhagfyr 2024 ac yn dod i ben am 5pm ar 17 Ionawr 2025. Mae Dogfen Ymgynghori wedi cael ei dosbarthu i'r holl randdeiliaid penodedig. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yma yn Atodiad i'r Ddogfen Ymgynghori.</td></tr>
<tr><td>Ymgysylltu â Chymunedau:</td><td>Mae croeso i aelodau o'r gymuned sy'n dymuno cael rhagor o wybodaeth am y cynnig fynd i sesiwn galw heibio gyhoeddus ble bydd modd iddyn nhw drafod y cynnig gyda swyddogion o Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor. Bydd yr achlysur ymgysylltu yma'n cael ei gynnal yn Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr ar 8 Ionawr 2025 rhwng 3pm a 6pm.</td></tr>
<tr><td colspan="2">ADRAN 2 – DATA</td></tr>
<tr><td>Data tueddiadau:</td><td>Mae data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ar gyfer 2024 yn dangos bod 899 o ddisgyblion oedran ysgol statudol ac 82 o ddisgyblion y chweched dosbarth yn mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar ym mis Ionawr 2024. Mae'r tabl dilynol yn amlinellu niferoedd disgyblion Ysgol Gyfun Aberpennar dros y pum mlynedd academaidd ddiwethaf. Caiff nifer y disgyblion chweched dosbarth ar gyfer pob blwyddyn academaidd ei ddangos ar wahân.

<table>
<tr><th colspan="6">Niferoedd gwirioneddol disgyblion Ysgol Gyfun Aberpennar dros y pum mlynedd academaidd ddiwethaf (data CYBLD)</th></tr>
<tr><th rowspan="2">Disgyblion</th><th colspan="5">Blwyddyn Academaidd</th></tr>
<tr><th>2019/20</th><th>2020/21</th><th>2021/22</th><th>2022/23</th><th>2023/24</th></tr>
<tr><td>Disgyblion Oed Ysgol Statudol</td><td>885</td><td>929</td><td>928</td><td>900</td><td>899</td></tr>
<tr><td>Disgyblion y Chweched Dosbarth</td><td>88</td><td>90</td><td>95</td><td>83</td><td>82</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>973</td><td>1,019</td><td>1,023</td><td>983</td><td>981</td></tr>
</table>
</td></tr>
</table>

Mae'r data'n dangos, rhwng blynyddoedd academaidd 2019/20 a 2023/24:

- Bod nifer y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar wedi aros yn eithaf cyson, gan gynyddu 1.6% (14) o 885 i 899.
- Bod nifer y disgyblion chweched dosbarth sy'n mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar wedi gostwng 6.8% (6) o 88 i 82.
- Bod cyfanswm nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar wedi aros yn eithaf cyson, gan gynyddu 0.8% (8) o 973 i 981.

Mae'r graff isod yn dangos niferoedd disgyblion y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar dros y deng mlynedd diwethaf.



Mae'r graff yn dangos, yn ystod y cyfnod yma, fod nifer y disgyblion chweched dosbarth wedi gostwng yn sydyn 43% (62) o 144 yn 2014/15 i 82 yn 2023/24.

	Mae'r graff isod yn dangos canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n dychwelyd i'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar dros y deng mlynedd diwethaf.  Mae'r graff yn dangos, yn ystod y cyfnod yma, fod canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n dychwelyd i'r chweched dosbarth wedi mwy na haneru o 60.9% yn 2014/15 i 29.7% yn 2023/24.
Data rhagamcanol:	Mae'r tabl dilynol yn amlinellu'r rhagolygon o ran niferoedd y disgyblion oedran ysgol statudol a'r disgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar dros y pum mlynedd academaidd nesaf. Mae'r niferoedd wedi'u cyfrifo yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn seiliedig ar ddata genedigaethau byw ar gyfer yr ardal.

<table>
<tr><td></td><td>
<table>
<tr><th colspan="10">Rhagamcan o niferoedd disgyblion yn Ysgol Gyfun Aberpennar dros y pum mlynedd academaidd nesaf</th></tr>
<tr><th rowspan="3">Disgyblion</th><th rowspan="3">Nifer y lleoedd</th><th colspan="6">Blwyddyn Academaidd</th><th colspan="2" rowspan="2">Cyfanswm o Leoedd Gwag yn 2028/2029</th></tr>
<tr><th>Gwir ffigwr</th><th colspan="4">Amcanestyniadau</th></tr>
<tr><th>23/24 (CYBLD)</th><th>24/25</th><th>25/26</th><th>26/27</th><th>27/28</th><th>28/29</th><th>Nifer</th><th>%</th></tr>
<tr><td>Disgyblion Oed Ysgol Statudol</td><td rowspan="2">1,394</td><td>899</td><td>868</td><td>878</td><td>880</td><td>892</td><td>857</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Disgyblion y Chweched Dosbarth</td><td>82</td><td>90</td><td>84</td><td>80</td><td>78</td><td>82</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>1,394</td><td>981</td><td>958</td><td>962</td><td>960</td><td>970</td><td>939</td><td>455</td><td>32.6%</td></tr>
</table>

Mae'r data'n dangos, erbyn blwyddyn academaidd 2028/29, rhagwelir y bydd 32.6% o leoedd dros ben o (455 o leoedd) yn Ysgol Gyfun Aberpennar.

Nodwch: Cafodd y rhagamcanion niferoedd disgyblion uchod eu cyfrifo cyn dechrau'r flwyddyn academaidd gyfredol. Mae niferoedd gwirioneddol y disgyblion ar gyfer 2024/25 bellach yn hysbys, ac ym mis Hydref 2024, dim ond 72 o ddisgyblion chweched dosbarth oedd yn Ysgol Gyfun Aberpennar, sy’n sylweddol is na'r ffigwr rhagamcanol o 90 (20%). O'r rhain, mae 30 o ddisgyblion ym mlwyddyn 12 a 42 ym mlwyddyn 13.</td></tr>
<tr><td>Cyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol:</td><td>Yn ôl data CYBLD, ym mis Ionawr 2024:

• Roedd 86.5% o ddisgyblion oed ysgol statudol a fynychodd Ysgol Gyfun Aberpennar yn byw yn y dalgylch.</td></tr>
</table>

	• Roedd 90.2% o ddisgyblion ôl-16 a fynychodd Ysgol Gyfun Aberpennar yn byw yn y dalgylch.
Cyfran y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol:	Yn ôl data CYBLD, ym mis Ionawr 2024: • Roedd 13.5% o ddisgyblion oed ysgol statudol a fynychodd Ysgol Gyfun Aberpennar yn byw y tu allan i'r dalgylch. • Roedd 9.8% o ddisgyblion ôl-16 a fynychodd Ysgol Gyfun Aberpennar yn byw y tu allan i'r dalgylch.
ADRAN 3 – CYFLEUSTERAU NEU WASANAETHAU ERAILL Y MAE'R YSGOL YN EU LLETYA	
Gwybodaeth am gyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu lletya, e.e. clwb ieuenctid, grŵp chwarae, grwpiau ysgol, llyfrgell y gymuned, ac ati:	• Mae Ysgol Gyfun Aberpennar yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys celfyddydau perfformio, pêl rhwyd, pêl-droed, rygbi a sesiynau adolygu pwnc-penodol. • Mae Gwasanaeth Ieuenctid (YEPS) yn rhedeg rhaglen ar ôl Ysgol yn Ysgol Gyfun Aberpennar, gan gynnwys gweithgareddau fel 'Craft Club'. • Defnyddiwyd y maes chwaraeon gan Glwb Rygbi Aberpennar ar y penwythnos am dimau mini ac iau.
Yn achos ysgol sy'n darparu lle, cyfleusterau neu wasanaethau, lle bydden nhw'n cael eu darparu pe bai ysgol yn cau:	Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai safle Ysgol Gyfun Aberpennar yn parhau ar agor i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion oed ysgol statudol (blynyddoedd 7 i 11). O'r herwydd, ni fyddai unrhyw newid i'r gwasanaethau a gaiff eu cynnig gan yr ysgol.
ADRAN 4 – CYFLEUSTERAU ERAILL YN Y GYMUNED AGOS, LLEOL AC EHANGACH	
P'un ai fydd neu byddai cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu ehangach yn cael eu gwella pe bai ysgol yn cau, e.e. gwella neuaddau pentref,	Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, fyddai'r ysgol ddim yn cau. Byddai Ysgol Gyfun Aberpennar yn parhau ar agor i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion oed ysgol statudol (blynyddoedd 7 i 11). O'r herwydd, ni fyddai unrhyw newid i'r gwasanaethau a gaiff eu cynnig gan yr ysgol.

meysydd chwarae, darparu cynlluniau chwarae adeg y gwyliau ac ati:	
ADRAN 5 – YSGOL(ION) ARALL (ERAILL)	
Gwybodaeth am y cyfleusterau a gaiff eu darparu mewn unrhyw ysgol arall:	Ar hyn o bryd, mae tair ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yng Nghwm Cynon, sef Ysgol Gyfun Aberpennar, Ysgol Gymunedol Aberdâr ac Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru. Mae trefniadau cydweithredol cryf wedi'u sefydlu rhwng y tair ysgol, sy'n gweithredu fel 'Consortiwm Cwm Cynon' i sicrhau bod cwricwlwm ôl-16 eang a chytbwys yn cael ei ddarparu'n effeithiol. Mae'r ystod lawn o gyrsiau ôl-16 a gaiff eu darparu ar draws y tair ysgol ar gael i bob disgybl, gyda chludiant yn cael ei ddarparu i ddisgyblion deithio rhwng safleoedd ysgol yn ôl yr angen. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r dalgylch yn cael ei ddiwygio i osod Ysgol Gyfun Aberpennar yn ardal ddalgylch Ysgol Gymunedol Aberdâr **ar gyfer darpariaeth ôl-16 yn unig**. Byddai disgyblion a fyddai wedi mynychu chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn flaenorol yn mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr yn lle hynny. **<u>Ysgol Gymunedol Aberdâr</u>** Mae Ysgol Gymunedol Aberdâr yn ysgol cyfrwng Saesneg 11 i 19 sydd wedi'i lleoli ar Heol yr Ynys, Aberdâr. Mae disgyblion yn elwa o amgylchedd dysgu'r 21ain ganrif, y mae ei chyfleusterau'n cynnwys: • 'Ardaloedd ar wahân' ar gyfer dysgu, sy'n annibynnol i'r dosbarthiadau ac sydd â choridorau sydd wedi'u dylunio'n ofalus. • Cysylltedd Wi-Fi a'r defnydd o dechnoleg fodern gydag ystafelloedd sydd ag iPads, sy'n galluogi i ddyfeisiau llechen gael eu defnyddio mewn caffis rhyngrwyd. • Stiwdio recordio, ardal agored gyda thaflunydd enfawr, campfa ac ardal ddawns. • Mynediad at gyfleusterau chwaraeon o'r radd flaen ar yr un safle (Canolfan Hamdden Sobell a Stadiwm Ron Jones). • Ardal benodol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau'n ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl.

	Mae disgyblion chweched dosbarth yn cael cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys cyfleoedd sy'n ymwneud â chwaraeon, diwylliant a gwyddoniaeth. Mae'r rhain yn cynnwys clwb dadlau, cynllun peirianneg, perfformio mewn cynyrchiadau a chyngherddau ysgol ac achlysuron chwaraeon. Mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Hamdden sydd wedi'u lleoli yng Nghanolfan Hamdden Sobell, mae Ysgol Gymunedol Aberdâr wrthi'n rhoi cynnig ar gynllun sy'n caniatáu i ddisgyblion ennill cymhwyster Achub Bywyd (NPLQ), Cymorth Cyntaf yn y Gweithle a hyfforddiant defnyddio diffibriliwr. Anogir disgyblion i godi arian ar gyfer elusennau a chymryd rhan mewn cyfleoedd mentora cyfoedion, megis y Cynllun Cyfaill Darllen gyda disgyblion iau. Mae Gwasanaeth Ieuenctid (YEPS) yn rhedeg rhaglen ar ôl Ysgol yn yr ysgol, hefyd. Mae ardal bwrpasol wedi'i dylunio yn Ysgol Gymunedol Aberdâr fel bod modd i'r gymuned leol a thrydydd parti ddefnyddio'r cyfleusterau yn yr ysgol yn ddiogel, yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gallai'r gymuned leol a disgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar elwa o hyn. **<u>Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru</u>** Gallai disgyblion hefyd wneud cais i fynychu'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru. Mae Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru yn ysgol uwchradd Anglicanaidd 11 i 18 oed cyfrwng Saesneg a gaiff ei chynorthwyo yn wirfoddol ar Heol Glan, Aberdâr. Cynigir ystod eang o gyfleoedd arweinyddiaeth ac allgyrsiol i ddisgyblion, gan gynnwys gweithgareddau chwaraeon, diwylliannol a chorfforol. Mae'r rhain yn cynnwys perfformio ar lwyfan, cymryd rhan mewn achlysuron chwaraeon, gwasanaeth gwirfoddol, encilion, cyfnewidfeydd tramor a theithiau. Mae pwyslais cryf ar gadw'n heini a manteision ffordd iach o fyw. Dylid nodi bod ysgolion yn rheoli eu derbyniadau eu hunain ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth ac yn pennu'r meini prawf mynediad. Fel arall, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, gallai disgyblion ddewis mynychu darpariaeth ôl-16 yng Ngholeg y Cymoedd, sydd â thri champws yn Rhondda Cynon Taf ac un ym mwrdeistref sirol gyfagos Caerffili.

Gwybodaeth am y pellter a'r amser teithio sydd ynghlwm wrth fynychu ysgol(ion) amgen o'r un categori iaith:	Mae Ysgol Gymunedol Aberdâr wedi'i lleoli tua 3.3 milltir i ffwrdd o Ysgol Gyfun Aberpennar, gydag amser teithio o tua 8 munud. Mae Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru wedi'i lleoli 4.3 milltir i ffwrdd o Ysgol Gyfun Aberpennar, gydag amser teithio o tua 12 munud. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, rhagwelir y byddai pob disgybl ôl-16 yn nalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i fynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr, fel eu hysgol ddalgylch. Ni fyddai cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gael i unrhyw un o'r disgyblion hyn sy'n dewis mynychu Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru.
Sut y byddai modd cefnogi ymgysylltiad rhieni/gwarcheidwaid a disgyblion â'r ysgol(ion) amgen ac unrhyw gyfleusterau y gallai eu cynnig e.e. sut y bydd disgyblion (yn enwedig disgyblion llai breintiedig) yn cael eu cynorthwyo i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol.	Rydyn ni'n deall y bydd rhai disgyblion efallai'n teimlo'n bryderus i ddechrau am y posibilrwydd o symud i ysgol newydd ar safle newydd ar gyfer darpariaeth ôl-16. Serch hynny, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai cymorth wedi'i dargedu ar gyfer yr holl ddisgyblion o Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr. Mae proses bontio cadarnhaol ac ystyrlon yn rhan allweddol o sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu yn eu hysgol newydd heb darfu ar eu lles a'u haddysg. Caiff hyn ei hwyluso trwy ddarparu cymorth academaidd a bugeiliol effeithiol a chyfleoedd strwythuredig er mwyn i ddisgyblion a'u rhieni/gwarcheidwaid ymgyfarwyddo ag amgylchedd newydd yr ysgol ac aelodau o staff. Er enghraifft, byddai Ysgol Gymunedol Aberdâr yn cynnal noson agored i ddisgyblion blwyddyn 11 presennol Ysgol Gyfun Aberpennar a'u rhieni/gwarcheidwaid ymweld â'r ysgol a chwrdd â'r garfan ac aelodau o staff. Byddai Pennaeth Chweched Dosbarth Ysgol Gymunedol Aberdâr hefyd yn sefydlu cysylltiadau cryf gyda charfan blwyddyn 11 yn Ysgol Gyfun Aberpennar, yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â nhw, yn rhoi'r holl wybodaeth berthnasol iddyn nhw ac yn sicrhau eu bod nhw'n cael cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau sydd gyda nhw. Byddai cyngor a chefnogaeth yn cael ei ddarparu gan y Cyngor i aelodau o staff Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr er mwyn sicrhau eu bod nhw'n barod i gefnogi'r broses bontio a'i wneud mor llyfn a di-dor â phosibl. Mae manylion y gweithgareddau allgyrsiol a gaiff eu cynnal yn Ysgol Gymunedol Aberdâr wedi'u darparu uchod. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Gyfun Aberpennar yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y gweithgareddau yma. Serch hynny, dylid nodi nad yw gweithgareddau allgyrsiol yn ofyniad statudol, ac fel sy'n wir ledled Rhondda Cynon Taf, byddai cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol arferol yn unig. Ni fyddai

	cludiant ychwanegol o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu i alluogi disgyblion i gael mynediad at weithgareddau allgyrsiol.
ADRAN 6 – TRAFNIDIAETH/TEITHIO LLESOL	
Effaith ar iechyd a lles, e.e. a fyddai disgyblion llai abl i gerdded neu feicio i'r ysgol:	Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai angen i bob disgybl ôl-16 sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar deithio ymhellach i fynychu'r chweched dosbarth yn Ysgol Gymunedol Aberdâr. Yn anochel, byddai hyn yn golygu y byddai disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio i'r ysgol, ac fel y nodwyd uchod, mae'n debygol iawn y byddai gan bob disgybl hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i fynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr. Mae Ysgol Gymunedol Aberdâr yn ysgol newydd, a gafodd ei hadeiladu yn 2014, yn rhan o fuddsoddiad hamdden ac addysg ehangach yn yr ardal leol, lle cafodd Canolfan Hamdden Sobell gerllaw fuddsoddiad sylweddol at ddefnydd yr ysgol a'r gymuned. Mae Stadiwm Ron Jones, sef trac athletau, hefyd wedi'i gydleoli ar yr un safle. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ymarfer corff rheolaidd yn hybu lles corfforol a meddyliol. Mae cydleoli Ysgol Gymunedol Aberdâr ochr yn ochr â'r cyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf yma yn cynnig cyfleoedd rhagorol i ddisgyblion, boed hynny'n rhan o'u hastudiaethau neu fel gweithgareddau allgyrsiol. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai modd i ddisgyblion chweched dosbarth a fyddai wedi mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar yn flaenorol elwa ar y cyfleoedd yma a ddylai gael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u lles.
Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ehangach y byddai'r newidiadau'n eu cael ar ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus:	Yn dilyn ymarfer ymgynghoriad cyhoeddus diweddar, mae Cabinet y Cyngor wedi penderfynu o fis Medi 2025: • Bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r meini prawf pellter statudol a gaiff ei nodi ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 mewn perthynas â disgyblion oed uwchradd (blynyddoedd 7 i 11), a darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i bob disgybl uwchradd sy'n byw **3 milltir** neu ymhellach o'u hysgol addas agosaf. • Bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu cludiant i ddisgyblion ôl-16 sy'n byw **3 milltir** neu ymhellach o'u hysgol neu goleg addas agosaf. Mae rhagor o wybodaeth mewn perthynas â darpariaeth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor.

	Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, mae'n debygol iawn y byddai gan bob disgybl chweched dosbarth sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i fynychu darpariaeth ôl-16 yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, felly ni fyddai unrhyw effaith ar y system trafnidiaeth gyhoeddus.
ADRAN 7 – EFFAITH AR IECHYD A LLES	
Gwybodaeth am yr effaith ar iechyd a lles:	**Disgyblion** Fel y caiff ei gydnabod uchod, efallai y bydd rhai disgyblion yn teimlo'n bryderus i ddechrau ynghylch y posibilrwydd o symud i ysgol newydd ar safle newydd i gael mynediad at ddarpariaeth ôl-16. Serch hynny, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai cymorth priodol yn cael ei ddarparu i sicrhau bod y broses bontio'n cael ei rheoli mor llyfn ac effeithiol â phosibl, ac yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn ystyried y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles disgyblion. Byddai'r cynnig yn caniatáu i gwricwlwm ôl-16 gwell gael ei gyflwyno yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, gan gynnwys ystod gynhwysfawr o gyrsiau galwedigaethol a Safon Uwch/Lefel A. Mae'r cynnig cwricwlwm gwell yma'n debygol o annog mwy o ddisgyblion blwyddyn 11 i ddychwelyd i'r chweched dosbarth, tra bydd mwy o ddewis yn eu galluogi i ddewis y llwybr dysgu mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion orau. Byddai cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau mwy o faint a mwy priodol yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio gwerthfawr rhwng disgyblion. Mae dosbarthiadau bach yn arwain at gyfyngu ar ryngweithio rhwng myfyrwyr, sy'n lleihau effeithiolrwydd y dysgu. Mae dosbarthiadau mwy o faint yn lleihau aneffeithlonrwydd ac yn gwella effeithiolrwydd, wrth i gyfleoedd disgyblion a rhyngweithiadau myfyrwyr gynyddu. Yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, teithiodd 65% o ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar i Ysgol Gymunedol Aberdâr a/neu Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys i gael rhywfaint o'u haddysg. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai disgyblion yn treulio llai o amser yn teithio rhwng safleoedd, gan roi mwy o amser iddyn nhw gymryd rhan mewn dysgu annibynnol, profiad ôl-16 mwy cadarnhaol a mwy o ymdeimlad o berthyn i gymuned chweched dosbarth. Fel sydd wedi'i hegluro uchod, mae Ysgol Gymunedol Aberdâr yn ysgol newydd, a gafodd ei hadeiladu yn 2014 yn rhan o fuddsoddiad hamdden ac addysg ehangach yn yr ardal leol. Mae cydleoliad Ysgol Gymunedol Aberdâr, gyda'i amgylchedd dysgu 21ain ganrif â chyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf, yn

	cynnig cyfleoedd rhagorol i ddisgyblion. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai disgyblion chweched dosbarth a fyddai wedi mynychu Ysgol Gyfun Aberpennar yn flaenorol yn elwa o hyn hefyd. Mae'r Cyngor yn ystyried bod y buddion a gaiff eu nodi uchod yn debygol o arwain at fwy o ymgysylltu, deilliannau gwell a chynnydd yn y dilyniant i addysg uwch, cyflogaeth a hyfforddiant. Byddan nhw'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles disgyblion, ac yn eu tro, yn cyfrannu at fwy o bobl ifainc yn cyflawni eu potensial. **Aelodau o Staff** Mae'r Cyngor yn cydnabod bod hwn yn gyfnod pryderus i rai aelodau o staff, oherwydd efallai na fydd angen rhai swyddi mwyach pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo. Os felly, bydd carfan Adnoddau Dynol y Cyngor yn cynnig cymaint o gymorth â phosibl, gan gynnwys ymwelid cychwynnol â holl aelodau o staff Ysgol Gyfun Aberpennar, a hynny er mwyn sicrhau eu bod nhw'n effro i'r prosesau a allai ddilyn a'r cymorth gweithredol a phersonol sydd ar gael. Mae gan y Cyngor bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r Cyngor yn argymell i Gorff Llywodraethu Ysgol Gymunedol Aberdâr y dylai unrhyw swyddi ychwanegol sydd eu hangen o ganlyniad i gynnydd yn nifer y disgyblion ôl-16, sy'n is na lefel uwch arweinyddiaeth, gael eu neilltuo i'r staff presennol a gaiff eu cyflogi yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn y lle cyntaf. Mae'r broses yma'n golygu y byddai staff Ysgol Gyfun Aberpennar yn cael y cyfle cyntaf i wneud cais am swyddi ychwanegol yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, cyn i unrhyw swyddi gael eu hysbysebu'n allanol. Os byddan nhw'n llwyddiannus, bydden nhw'n trosglwyddo i Ysgol Gymunedol Aberdâr pan fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith. Yn y tymor hwy, mae'r Cyngor yn ystyried y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles staff. Bydd yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer disgyblion oed statudol (blynyddoedd 7 i 11) yn cynyddu gan na fydd angen ailgyfeirio cyllid bellach i sybsideiddio'r ddarpariaeth ôl-16. Mae modd cyfeirio'r holl gyllid a gall aelodau o staff ganolbwyntio ar ddarparu'r addysg orau bosibl i ddisgyblion oedran statudol, a ddylai arwain at well deilliannau a boddhad swydd.
ADRAN 8 – DIOGELWCH Y GYMUNED	
Gwybodaeth am faterion diogelwch y gymuned ehangach:	Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai safle Ysgol Gyfun Aberpennar yn parhau ar agor i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion oed ysgol statudol (blynyddoedd 7 i 11). O'r herwydd, ni fyddai unrhyw newid i'r materion diogelwch y gymuned ehangach.

<table>
<tr><td colspan="2">ADRAN 9 – CRYNODEB O'R EFFAITH AR Y GYMUNED</td></tr>
<tr><td></td><td>I gadarnhau, mae'r Cyngor yn ystyried bod effaith cyffredinol y cynnig ar y gymuned yn gadarnhaol.

Byddai Ysgol Gyfun Aberpennar yn parhau ar agor gyda mwy o arian ar gael i ddarparu addysg i ddisgyblion ym mlynyddoedd 7 i 11. Byddai disgyblion ôl-16 yn elwa o gael mynediad at gynnig cwricwlwm ehangach yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, gyda phob disgybl ôl-16 yn debygol o fod yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol.

Trwy ehangu dalgylch Ysgol Gymunedol Aberdâr i gynnwys Ysgol Gyfun Aberpennar ar gyfer darpariaeth ôl-16 yn unig, byddai mwy o ddisgyblion a rhieni/gwarcheidwaid yn elwa o’r amgylchedd dysgu a chyfleusterau cymunedol 21ain ganrif rhagorol sydd ar gael yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, gan ehangu cyrhaeddiad a chynyddu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned.</td></tr>
<tr><td colspan="2">ADRAN 10 – AWDURDODI</td></tr>
<tr><td>Swyddog Arweiniol:</td><td>Lisa Howell</td></tr>
<tr><td>Swydd</td><td>Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion – Ysgolion yr 21ain Ganrif</td></tr>
<tr><td>Dyddiad:</td><td>29 Tachwedd 2024</td></tr>
<tr><td>Argymhellion:</td><td>
<table>
<tr><td colspan="2">Argymhellion</td></tr>
<tr><td>Argymhelliad</td><td>Argymhelliad Traws-berthnasol</td></tr>
<tr><td>Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw welliannau</td><td>X</td></tr>
<tr><td>Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu</td><td></td></tr>
<tr><td>Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur ar y Gymuned.</td><td></td></tr>
</table>
</td></tr>
<tr><td>Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr:</td><td>Andrea Richards</td></tr>
<tr><td>Swydd:</td><td>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid</td></tr>
<tr><td>Dyddiad:</td><td>29 Tachwedd 2024</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyflwynwch yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yma gydag unrhyw Adroddiadau i'r Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.</td></tr>
<tr><td colspan="2">ADRAN 11 – TREFNIADAU AR GYFER MONITRO AC ADOLYGU</td></tr>
</table>

Monitro ac Adolygu:	Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r effaith ar y gymuned yn cael ei monitro a'i hadolygu'n barhaus wrth iddo fynd rhagddo. Mae'r effeithiau allweddol a gaiff eu monitro wedi'u hamlinellu isod:
ADRAN 12 – YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AR YR ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED AR ÔL CWBLHAU'R YMGYNGHORIAD	
Dyddiad:	27 Ionawr 2025
Diweddariad:	**Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:** *"Y grŵp blwyddyn y mae hyn yn effeithio arno yw'r union grŵp blwyddyn a gafodd ei effeithio yn ystod COVID-19! Ni chawsant broses bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae'r effaith dreigl y mae hyn wedi'i chael ar eu haddysg yn enfawr. Mae wedi cymryd blynyddoedd iddyn nhw ymgartrefu a dod yn ôl ar y trywydd iawn o ran ble y dylen nhw fod ar gyfer eu hoedran…mae'n annheg, ac nid yw er lles gorau'r plant."* *"Rydw i'n meddwl bod mynd â phlant allan o'r amgylchedd y maen nhw wedi arfer ag ef ac eisiau aros ynddo ar un o'r adegau mwyaf pwysig a dirdynnol y maen nhw wedi dod ar ei draws yn warthus."* *Mae'r pontio ar gyfer disgyblion presennol yn mynd i gael effaith aruthrol ar eu dysgu…gorfod dysgu enwau newydd, ffurfio perthnasoedd newydd ag athrawon newydd, ffurfio perthnasoedd newydd gyda disgyblion [ac ati]."* *"Mae gan ddisgyblion yr hawl i gael eu haddysgu yn eu hysgol eu hunain...bydd cau'r chweched dosbarth yn cael effaith andwyol ar ddisgyblion."* *"Rwy'n meddwl y dylai'r opsiwn aros i ddisgyblion barhau â'u haddysg yn yr ysgol y maen nhw wedi ei mynychu o flwyddyn saith. Mae'n newid mawr gorfod teithio i Aberdâr yn ddyddiol ar gyfer chweched dosbarth neu goleg ac nid yw rhai plant yn barod am hynny ar ddiwedd blwyddyn 11."* Mae lles pob disgybl yn bwysig iawn i'r Cyngor. Rydyn ni'n cydnabod efallai y bydd rhai disgyblion yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r newidiadau yn fwy nag eraill. Mae trawsnewidiadau bywyd yn nodweddion arwyddocaol ym mywydau pob person ifanc. Bydd pob disgybl sy'n derbyn addysg yn profi llawer o gyfnodau o newid ac addasu, ac mae llawer o ddisgyblion

	eisoes yn cael mynediad at eu haddysg ar draws mwy nag un safle ysgol ac wedi addasu'n dda i hyn. Gellid dadlau y bydd derbyn addysg ar un safle ysgol yn dod â mwy o sefydlogrwydd i ddisgyblion a pharhad mewn addysgu a dysgu, a pherthnasoedd cymdeithasol gydag aelodau o staff a chyfoedion yn ystod eu hastudiaethau ôl-16. Cydnabyddir y bydd angen cymorth emosiynol ychwanegol ar rai disgyblion, gan dderbyn amgylchedd ysgol newydd ac anogaeth i wneud ffrindiau a pherthnasoedd newydd ac i fod yn rhan o rwydwaith cymdeithasol newydd. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda'r ddwy ysgol i gefnogi'r broses o sicrhau pontio effeithiol. Bydd y trefniadau pontio sy'n cael eu darparu yn sicrhau bod digon o gyfleoedd i helpu disgyblion i lywio'r newidiadau ac ymgartrefu yn yr ysgol newydd mor gyflym â phosibl. Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y cynnig wedi'i baratoi yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018). Mae'r Cyngor yn ystyried buddion y cynnig i blant a phobl ifainc yn unol â'r saith prif amcan sydd wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant. **Mae dalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar yn ddifreintiedig, gallai hyn gael effaith andwyol ar ddisgyblion sydd eisoes dan anfantais.** **Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:** *"Rwy'n meddwl y bydd llawer o blant yn cael eu cymell i beidio â [mynd] ymlaen i addysg [ôl-16] os oes rhaid iddyn nhw newid ysgol. Bydd aelodau tlotach o'r gymuned hyd yn oed yn llai tebygol o barhau â'u haddysg. Bydd plant [sy'n] bryderus neu sy'n dueddol o fod yn nerfus neu'n swil yn cael eu hatal rhag mynychu ysgol arall. Mae hwn yn bendant yn gam yn ôl…pam mae angen i gymunedau tlotach ddioddef?"* *"Mae llawer o ardaloedd yn Aberpennar yn cael eu hystyried yn ardaloedd difreintiedig lle mae unigolion yn yr ardaloedd yma'n cael eu hystyried yn llai tebygol o gael mynediad at addysg bellach ac addysg uwch, gan wneud mynediad at chweched dosbarth yn anos yn cynyddu'r tebygolrwydd yma."*

	Cydnabyddir y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai disgyblion a phontio gwell i amgylchedd newydd, ond mae hefyd yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddatblygu a chwrdd â phobl newydd a chael profiadau newydd a fydd yn helpu rhai disgyblion i aeddfedu a dod yn ddisgyblion mwy annibynnol ar gyfer y cam nesaf yn eu bywydau. Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y cynnig wedi'i baratoi yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018). Mae Adran 3 o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol y Cyngor mewn perthynas â'r cynnig yma. Caiff yr anfanteision economaidd-gymdeithasol sy'n berthnasol i'r ardal eu rhestru gan ddefnyddio data o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Caiff pob anfantais ei ystyried o fewn cyd-destun y cynnig yma, ac mae effaith y cynnig yma ar bob anfantais wedi'i rhestru, yn fanwl a cheir tystiolaeth ohoni. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, mae'n debygol iawn y bydd gan bob disgybl chweched dosbarth sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar yr hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i fynychu addysg ôl-16 yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, a ddylai ddileu un o'r rhwystrau i'r rhai o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd mwy difreintiedig rhag cael mynediad at addysg ôl-16.